Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Sioned Roberts**

**Pwllheli**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

24 Chwefror 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br><br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na<br><br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Sioned Roberts wedi cofrestru i ofalu am 10 o blant o'i chartref yn Sarn,ger Pwllheli, lle mae'n byw gyda'i theulu. Gall plant i fyny at 12 oed fynychu'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth ar agor o 7:30yb tan 17:30 yh o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r tŷ mewn ardal gwledig lle gall plant gael cyfleoedd i chwarae tu allan. Mae hwn yn wasanaeth cyfrwng Cymraeg ac yn darparu Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

| Theme | Rating |
|---|---|
| Lles | DA |
| Gofal a Datblygiad | DA |
| Yr amgylchedd | DA |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | DA |

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae plant sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn yn hapus, bodlon ac yn gwir fwynhau eu hamser yno. Cynigir amrywiaeth da o weithgareddau sy'n hybu datblygiad a boddhad plant a'u galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau eu hunain. Mae'r warchodwraig yn brofiadol a mae'n ymateb i anghenion a gofynion plant. Roedd perthynas hoffus a gofalgar wedi datblygu rhyngddynt. Mae ganddi gymhelliant da sy'n sicrhau ei bod yn gwneud newidiadau er gwell i fywydau'r plant yn ei gofal. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac addas gydag ystod o adnoddau.

### 2. Gwelliannau

Dyma'r arolwg cyntaf ers cofrestru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch cryfhau rhai gweithdrefnau diogelwch a chofnodi arferion hylendid o'r adnoddau.

## 1. Lles Da

**Crynodeb**

Mae'r plant yn hapus, hyderus a chysurus ac yn mwynhau eu hamser gyda'r warchodwraig. Maent yn llwyddo i gyfathrebu gyda'r warchodwraig, a gwrandewir ar eu dymuniadau. Maent yn teimlo'n hapus yn eu cynefin sy'n hwyluso eu datblygiad a meithrin eu hannibyniaeth. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac wedi meithrin perthynas glòs a chynnes gyda'r warchodwraig.

**Ein canfyddiadau**

Rhoddir gwrandawiad i lais y plentyn yn y gwasanaeth hwn. Roedd y plentyn ieuengaf yn defnydddio dulliau di-iaith i gyfathrebu'n llwyddiannus. Roeddynt yn ymateb i gwestiynau cyson fel *'wyt ti isio chwarae efo..?' 'wyt ti isio kiwi neu oren?* ac yn y blaen gan wneud penderfyniadau syml a mynegi eu dyheadau. Roedd rhyddid i'r plant symud o un gweithgaredd i'r llall gan roi cyfle i ddangos hoffter, yn arbennig wrth iddynt chwarae rôl a gwisgo i fyny ar ôl cinio. Gwelsom bod y plant yn derbyn anogaeth gyson i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r rhai lleiaf yn derbyn cymorth cyson i ynganu geiriau, er mwyn datblygu eu sgiliau llythrennedd. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn eithriadol o dda a iaith eu cartref yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo.

Mae'r plant yn hapus a dedwydd, gyda pherthynas gyfeillgar a chynnes wedi ei meithrin gyda'r warchodwraig. Roedd y plant yn chwarae'n fodlon ac yn hyderus wrth iddynt siarad a sgwrsio gyda ni o'r cychwyn cyntaf. Roedd gwaith y plant wedi eu arddangos oedd yn rhoi teimlad o berthyn iddynt. Braf oedd gweld eu llwyddiannau yn cael eu dathlu a'u balchder amlwg hwythau wrth ddangos eu gwaith i ni.
Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd rhan fwyaf o'r amser  Roedd y plant yn derbyn canmoliaeth gyson ac yn ymateb yn dda gan ddangos eu bod yn dechrau dysgu rhannu a chyd-chwarae, er enghraifft wrth chwarae gyda'r toes. Roedd y plant yn hapus i chwarae'n annibynnol neu gyda'i gilydd a'r warchodwraig a hefyd cyfleoedd i ymlacio'n dawel pan fo angen.

Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a dysgu ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gweithgareddau. Roedd y plant yn mwynhau'r chwarae dychmygus wrth gasglu'r bwyd tegan ar gyfer picnic ac yn sgwrsio am eu dewisiadau. Roedd y plant yn mwynhau gwrando ar stori a hefyd wrth ddewis lluniau ar gyfer lliwio. Gwelsom luniau o'r amrywaieth eang o weithgareddau mae'r plant yn cael cyfleoedd i'w mwynhau, megis, pobi a choginio, hel mwyar duon, a mynd ar dripiau i'r traeth, y parc a'r fferm gwningod.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a meithrin eu sgiliau annibyniaeth, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Roedd y plant yn llwyddo i fwydo eu hunain i raddau helaeth, ac yn derbyn anogaeth i wneud  hynny. Wrth chwarae gyda thoes, roedd y plant yn meithrin hyder i fod yn greadigol wrth ddilyn esiampl

y warchodwraig i rolio a thorri siapiau. Roedd ymarferion heriol i blant eu cwblhau drwy gwblhau lluniau gyda siapiau o does, a hwythau'n mwynhau gwneud.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae gan y warchodwriag y wybodaeth a'r profiad i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion plant a'u cefnogi yn eu chwarae a'u dysgu. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau diogelwch plant a gall reoli'r rhyngweithio rhyngddynt gan sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth gadarnhaol. Mae anghenion unigol yn cael eu diwallu'n amserol.Mae'n darparu gweithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad a dysgu plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r warchodwraig wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch plant. Roedd arferion glanhau cadarn ar waith ac arferion hylendid da. Roedd y bwrdd yn cael ei ddiheintio ar ôl chwarae toes a chyn amser byrbryd a chinio. Drwy sgwrs gwelsom bod y warchodwraig yn gwbl wybyddus â gweithdrefnau diogelu plant ac yn gwybod pryd a ble i gael cymorth. Roedd cofnodion o ymarferion tân bob hanner tymor yn nodi bod y plant yn ymarfer clywed y larwm ond nad oeddynt yn ymarfer gadael y tŷ a thrafodom sut i ddatblygu hyn. Roedd y warchodwraig yn hybu ffordd iach o fyw drwy sicrhau bod diod ar gael i blant bob amser, eu bod yn derbyn byrbryd iach o ffrwythau a hefyd cyfleoedd aml i chwarae yn yr awyr iach. Gwelsom bod y warchodwraig yn dilyn canllawiau rheoli heintiau wrth newid clwt.

Mae'r warchodwraig yn hybu ymddygiad cadarnhaol ac yn deall sut i reoli ymddygiad gan weithredu hyn mewn ffordd gyson a theg. Roedd y warchodwraig yn treulio llawer o amser yn chwarae ar lawr gyda'r plant a'u hannog i gyd-chwarae a rhannu. Roedd plant yn derbyn canmoliaeth am lwyddo i gyflawni'n annibynnol. Pan ddigwyddodd un enghraifft o ymddygiad di-eisiau, deliodd yn syth â'r mater gan esbonio a rhesymu gyda'r plentyn yn effeithiol.  Mae'n trin y plant gyda pharch gan weithredu fel rôl model da i'r plant, ac adlewyrchir hyn yn ymddygiad gwrtais y plant.

Mae'r warchodwraig yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn darparu adnoddau a gweithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas i'w hoed a'u camau datblygiad. Roedd yn arddangos sgiliau da i hybu datblygiad ieithyddol plant drwy ailadrodd geiriau, yn hybu sgiliau rhifedd gan gyfrif wrth chwarae. Mae'r sylw parhaus a'r sgwrsio yestynnol yn hybu sgiliau ieithyddol y plant. Mae gan y warchodwraig gefndir o weithio mewn ysgol a a gŵyr sut i gynnal diddordeb plant gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau'n amserol. . Roedd yn llwyddo i ddiwallu anghenion unigol drwy ei hadnabyddiaeth o'r plant.

## 3. Yr amgylchedd **Da**

### Crynodeb

Mae'r warchodwraig yn darparu gofal o ystafelloedd pwrpasol yn ei chartref. Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r warchodwraig yn sicrhau fod gan y plant ardaloedd ac adnoddau cyffrous i blant archwilio. Mae'n darparu gweithgareddau amrywiol ac adnoddau addas i gynnal diddordeb plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r warchodwraig yn ymblethu gweithdrefnau effeithiol i'w harferion dyddiol i sicrhau diogelwch a lles y plant. Ceir gatiau diogelwch i'r grisiau ac yn y mynediad i'r gegin. Hefyd mae'r gard tân wedi ei gysylltu i'r wal yn unol ag argymhelliad yr adroddiad cyn cofrestru. Gwelsom nad oedd y drws allanol yn cael eu gloi bob amser, a thrafodwyd newid yr arfer hwn, a gwnaethpwyd hynny yn ystod ein hymweliad. Roedd yr amgylchedd yn lân a diogel. Roedd tyweli papur a sebon hylif ar gael i'r plant yn yr ystafell ymolchi sydd wrth ymyl yr ystafell chwarae. Roedd y warchodwraig wedi cwblhau asesiad risg cyffredinol ac yn cofnodi'r adolygiadau rheolaidd. Gwelsom bod y giat i'r ardal tu allan yn gadarn er nad oedd yn bosib gosod clo, ond roedd gweithdrefn mewn lle i oruchwylio'r plant bob amser. Byddai gosod giat ym mhen pella'r ardal yn gwella diogelwch yr ardal i blant.

Mae'r warchodwraig wedi sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do sy'n galluogi'r plant i chwarae'n rhydd. Mae ardal eang lawr y grisiau sydd wedi ei rhannu'n ardal chwarae a lolfa gyda rhyddid i'r plant ddefnyddio'r ardal i gyd. Mae'r ardal chwarae wedi ei gosod mewn ardaloedd profiad amrywiol i gyfoethogi profiadau'r plant. Roedd ardal chwarae rôl, grotto Siôn Corn ac ardal y cartref i gynnal diddordeb y plant. Mae'r ardal chwarae yn olau a chroesawgar gydag arddangosfeydd priodol ar y waliau. Mae'r adnoddau yn hygyrch i'r plant ac yn meithrin eu hannibyniaeth.

Mae'r warchodwraig yn darparu teganau ac adnoddau addas sy'n hygyrch i'r plant. Roedd celfi addas i blant gyda byrddau a chadeiriau bach safonol. Gwelsom bod y teganau yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a diogel, ac argymhellwyd cofnodi'r arfer hylendid hwn yn ei dyddiadur. Mae'r adnoddau yn ennyn chwilfrydedd y plant ac yn rhoi mwynhad iddynt, yn arbennig y toes a'r offer i greu gwahanol siapiau. Roedd yr arddangosfa dymhorol o stori'r geni

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

**Crynodeb**

Mae'r warchodwraig yn deall ac ymarfer eii chyfrifoldebau ynghylch rheoliadau. Mae'n sicrhau ei bod yn mynychu cyrsiau perthnasol i wella a datblygu'r gwasanaeth.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r warchodwraig yn darparu ffeil polisïau manwl a chyflawn ac yn sicrhau bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu gweithredu yn eu harferion dyddiol. Gwelsom gofnodion bod y polisïau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r warchodwraig yn darparu datganiad o ddiben cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod rhieni yn cael mynediad at wybodaeth digonol am y gwasanaeth. Mae'n caffael gwybodaeth drylwyr o blant cyn iddynt gychwyn yn y gwasanaeth a chedwir y wybodaeth mewn modd priodol. Roedd y warchodwraig yn dangos dealltwriaeth lwyr o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a mae'n darparu Cynnig Gweithredol yr iaith Gymraeg.

Mae'r warchodwraig yn dilyn camau er mwyn adolygu ansawdd y gofal. Gwelsom samplau o holiaduron rhieni a phlant a oedd yn ganmoladwy iawn o'r gofal a'r gwasanaeth. Roedd y warchodwraig wedi darparu adroddiad ansawdd gofal gan nodi datblygiadau i'r dyfodol. Trafodwyd yr arfer da o anfon copi'n flynyddol i Arolygaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae'r warchodwraig yn cymryd ei dyletswyddau o ddifrif ac yn hunan-ddisgybledig. Roedd yn gweithio'n ddiwyd i gynnal rheolaeth lwyr o'i hamser a'r adnoddau. Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod  tystysgrifau yswiriant priodol a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae'r warchodwraig yn meddu ar gymhwyster priodol ac yn mynychu cyrsiau yn rheolaidd i sicrhau bod ei gwybodaeth iechyd a diogelwch yn cael ei ddiweddaru ac i ddatblygu ei gyrfa a'i gwasanaeth.

Mae'r warchodwriag yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Roedd rhieni yn derbyn gwybodaeth am eu plant drwy gyswllt dyddiadur dyddiol pe dymunent, neu sgwrs anffurfiol wrth ddod i hebrwng eu plant. Roedd y warchodwraig hefyd yn rhyngweithio gyda gwarchodwyr eraill er mwyn rhoi cyfleoedd estynedig i blant ryngweithio gyda'u cyfoedion.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

1) Sicrhau bod y drws allanol wedi ei gloi bob amser

2) Datblygu'r ymarferion tân cyfredol i sicrhau bod pob plentyn yn ymwybodol o'r weithdrefn a

3) Cofnodi arferion cynnal a chadw'r adnoddau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn ymweliad dirybudd er ein bod wedi ffonio ychydig amser o flaen llaw i gadarnhau pa ddyddiau ac amseroedd roedd y warchodwraig ar gael. Cynhaliwyd yr arolygiad ddydd Llun 9 Rhagfyr 2019 o 9:35 tan 14:30. Trefnwyd i ffonio’r warchodwraig ar 12 Rhagfyr i adrodd yn ôl. Fe wnaethom:

- arsylwi gweithgareddau tu fewn a thu allan;
- adolygu gwybodaeth oedd eisoes gan AGC – sef Datganiad o Ddiben ac adroddiad cyn cofrestru;
- siarad gyda’r warchodwraig a’r plant oedd yn bresennol;
- edrych ar ystod eang o ddogfennau, polisïau a gweithdrefnau, 3 o ffeiliau plant, asesiadau risg a llyfr damweiniau ac
- arsylwi amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr arolygiad a rhyngweithio gyda’r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person(au) Cofrestredig** | **Sioned Roberts** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **I fyny at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **7:30 – 17:30**<br>**Llun i Gwener** |
| **Prif iaith y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad Ôl-gofrestru** |
| **Dyddiadau'r ymweliad arolygu hwn** | **09 Rhagfyr 2019** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/03/2020.